Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018

Amser: 09.01 – 11.57

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5085

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mike Hedges AC (Cadeirydd) Gareth Bennett AC Jayne Bryant AC Andrew RT Davies AC John Griffiths AC Llyr Gruffydd AC Joyce Watson AC
Tystion:	Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth Prys Davies, Llywodraeth Cymru Simon Jones, Llywodraeth Cymru Dr Rebecca Heaton, Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd y DU Dr David Joffe, Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd y DU
Staff y Pwyllgor:	Marc Wyn Jones (Clerc) Lowri Jones (Dirprwy Glerc)

	Chloe Corbyn (Ymchwilydd) Andrew Minnis (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Helen Mary Jones AC fel aelod parhaol o'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Helen Mary Jones AC.

2 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 3, 4 ac 8 y cyfarfod heddiw a'r cyfarfod ar 28 Tachwedd 2018

2.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3, 4 ac 8 o gyfarfod heddiw ac ar gyfer y cyfarfod ar 28 Tachwedd 2018.

3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: trafod yr adroddiad drafft

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

4 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i daliadau am nwyddau cyhoeddus

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

5.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch y cais ariannu y mae Caerffili wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a fydd yn ei galluogi i fod y gymuned gyntaf ym Mhrydain lle bydd yr holl drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei phweru gan drydan.

5.3 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch y broses drosglwyddo a ddigwyddodd rhwng Trenau Arriva Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau diwydrwydd dyladwy.

6 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018: sesiwn dystiolaeth gyda Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Dr Rebecca Heaton a Dr David Joffe i lywio ei ymchwiliad.

7 Papurau i'w nodi

7. Nododd y Pwyllgor y papurau o dan eitem 7.

7.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Deben, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ynghylch Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018

7.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018

8 Trafod y dystiolaeth lafar

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 5 a 6.